

## **POLISI PREIFATRWYDD HOUSING PARTNERS**

### **1. CYFLWYNIAD**

Mae Housing Partners Limited wedi ymrwymo i ddiogelu eich preifatrwydd.

Mae'r polisi preifatrwydd hwn yn nodi'r sail ar gyfer prosesu unrhyw ddata personol yr ydym yn ei gasglu gennych chi, neu yr ydych yn ei ddarparu i ni. Darllenwch y canlynol yn ofalus i ddeall ein barn a'n harferion ynghylch eich data personol a sut y byddwn yn ei drin. Trwy ymweld â [www.housingjigsaw.co.uk](http://www.housingjigsaw.co.uk) a/neu ddefnyddio ein cynnyrch/gwasanaethau, rydych chi'n derbyn ac yn cydsynio i'r arferion a ddisgrifir yn y polisi preifatrwydd hwn.

At ddibenion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a chyfreithiau eraill ar ddiogelu data yn y DU (Deddfau Diogelu Data) sy'n berthnasol o bryd i'w gilydd, Housing Partners Limited, Whittington Hall, Whittington Road, Caerwrangon, Swydd Gaerwrangon WR5 2ZX rhif cwmni 04667857) yw'r rheolydd data.

### **2. GWYBODAETH Y GALLWN EI CHASGLU GENNYCH**

Gallwn gasglu a phrosesu'r data canlynol amdanoch chi:

- **Gwybodaeth a Roddwch i Ni.** Gallwch roi gwybodaeth amdanoch chi trwy lenwi ffurflenni ar ein gwefan, trwy gofrestru gyda ni neu drwy gysylltu â ni dros y ffôn, drwy e-bost neu fel arall. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth y byddwch yn ei darparu pan fyddwch yn cofrestru i ddefnyddio ein gwefan, tanysgrifio i'n gwasanaeth, chwilio am gynnyrch a phan fyddwch chi'n rhoi gwybod am broblem gyda'n safle a/neu ein cynhyrchion neu wasanaethau. Gallai'r wybodaeth a rowch i ni gynnwys eich enw, rhyw, dyddiad geni, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, cyfeiriad post a rhif ffôn, a data personol arall (gan gynnwys data personol sensitif neu ddata personol categori arbennig) yr ydych yn ei roi i ni.
- **Gwybodaeth y Casglwn Amdanoch Chi Gennych Chi.** Efallai y byddwn hefyd yn casglu'r wybodaeth ganlynol:
  - gwybodaeth dechnegol, gan gynnwys y cyfeiriad protocol Rhyngrwyd (IP) a ddefnyddiwyd i gysylltu eich cyfrifiadur â'r Rhyngrwyd, eich gwybodaeth mewngofnodi, math a fersiwn y porwr, gosodiad parth amser, mathau a fersiynau'r ategyn porwr, y system weithredu a'r plattform;
  - gwybodaeth am eich ymweliad, gan gynnwys y Lleolyddion Adnoddau Unffurf (URL) llawn, clicffrwd i, drwy ac o'n safle (gan gynnwys y dyddiad a'r amser), cynnyrch rydych chi wedi edrych arnynt neu wedi chwilio amdanynt, amseroedd ymateb y dudalen, camgymeriadau lawrlwytho, hyd ymweliadau â thudalennau penodol, gwybodaeth am ryngweithio ar dudalennau (fel sgrollo, clicio a gosod y llygoden), a'r dulliau a ddefnyddir i bori i ffwrdd o'r dudalen ac unrhyw rif ffôn a ddefnyddir i alw ein tîm gwasanaeth cwsmeriaid.

- Data Cyfanredol ac Ystadegau Gallwn ddefnyddio data cyfanredol ac ystadegau at ddibenion monitro'r defnydd o'r safle er mwyn ein helpu i ddatblygu'r safle a'n gwasanaethau. Gallwn ddarparu data cyfanredol o'r fath i drydydd partion at ddibenion hysbysebu neu at ddibenion eraill. Ni fydd yr ystadegau yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unrhyw unigolyn.

### 3. Y DEFNYDD A WNEIR O'R WYBODAETH

Rydym yn defnyddio gwybodaeth a gedwir amdanoch chi yn y ffyrdd canlynol ac ar y seiliau cyfreithlon cysylltiedig ar gyfer prosesu fel y nodir isod. Y seiliau cyfreithlon yr ydym yn eu defnyddio yw:

1. Mae ein prosesu'n angenrheidiol ar gyfer perfformiad contract yr ydych yn ddarostyngedig iddo neu er mwyn cymryd camau ar eich cais chi cyn ymrwymo i'r contract hwnnw (**Perfformiad y Contract**)
2. Mae ein prosesu yn angenrheidiol at ddibenion ein buddiannau dilys neu ddibenion trydydd parti, ac eithrio pan fo'ch buddiannau neu'ch hawliau a'ch rhyddid sylfaenol (**Buddiannau Cyfreithlon**) yn diystyru buddiannau o'r fath
3. Yn achos ein bod yn prosesu data personol sensitif neu ddata categori arbennig, mae prosesu yn angenrheidiol am resymau Budd y Cyhoedd ym maes Iechyd y Cyhoedd (**Iechyd y Cyhoedd**)

#### Gwybodaeth a Roddwch i Ni

| Purpose   | Ground for Processing  |
|---|--|
| I reoli eich cyfrif â'ch contract gyda ni   | Perfformiad Contract, oni bai bod y data personol yn sensitif neu'n ddata categori arbennig, h.y. Iechyd y Cyhoedd |
| I gyflawni ein rhwymedigaethau sy'n codi o unrhyw gontractau a wnaed rhyngoch chi a ni ac i roi'r wybodaeth, y cynhyrchion a'r gwasanaethau yr ydych yn gofyn amdanynt gennym ni. | Perfformiad Contract, oni bai bod y data personol yn sensitif neu'n ddata categori arbennig, h.y. Iechyd y Cyhoedd |
| I roi gwybod i chi am newidiadau i'n cynnyrch a'n gwasanaethau  | Buddiannau Dilys   |
| I sicrhau bod cynnwys o'n gwefan yn cael ei gyflwyno yn y ffordd fwyaf effeithiol i chi a'ch cyfrifiadur  | Buddiannau Dilys   |

## Gwybodaeth y Casglwn Amdanoch Chi Gennyh Chi

| Purpose  | Ground for Processing  |
|--|--|
| Gweinyddu ein safle ac ar gyfer gweithrediadau mewnol, gan gynnwys datrys problemau, dadansoddi data, profi, ymchwil, a dibenion ystadegol ac arolygon | Buddiannau Dilys   |
| I wella ein gwefan i sicrhau bod cynnwys yn cael ei gyflwyno yn y modd fwyaf effeithiol i chi a'ch cyfrifiadur   | Buddiannau Dilys   |
| Er mwyn i chi allu cymryd rhan mewn nodweddion rhyngweithiol ein gwasanaeth, pan fyddwch chi'n dewis gwneud hynny                                      | Perfformiad Contract a/neu Fuddiannau Dilys<br><br>Os yw'r data personol yn sensitif neu'n ddata categori arbennig, lechyd y Cyhoedd |
| Fel rhan o'n hymdrechion i gadw ein safle yn ddiogel   | Buddiannau Dilys   |
| I ddarparu ein cynnyrch a'n gwasanaethau i chi a thrydydd partïon  | Perfformiad Contract a/neu Fuddiannau Dilys  |

### 4. CWCIS

Mae ein gwefan yn defnyddio cwcis i'ch gwahaniaethu oddi wrth ddefnyddwyr eraill ein gwefan. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau eich bod yn cael profiad da wrth bori ein gwefan a hefyd yn ein galluogi i wella ein gwefan.

Ffeil fach o lythrennau a rhifau yw cwcis yr ydym ni'n ei storio ar eich porwr neu ar yriant caled eich cyfrifiadur os ydych chi'n cytuno i hynny. Mae cwcis yn cynnwys gwybodaeth sy'n cael ei throsglwyddo i yriant caled eich cyfrifiadur.

**Cwcis angenrheidiol.** Dyma'r cwcis y mae gofyn eu cael i weithredu ein safle. Maent yn cynnwys, er enghraifft, cwcis sy'n eich galluogi i fewngofnodi i rannau diogel o'n safle.

**Cwcis dadansoddol/perfformiad.** Maent yn ein galluogi i adnabod a chyfrif nifer yr ymwelwyr a gweld sut mae ymwelwyr yn symud o gwmpas ein gwefan wrth ei defnyddio. Mae hyn yn ein helpu i wella'r ffordd y mae ein gwefan yn gweithio, er enghraifft, trwy sicrhau bod defnyddwyr yn dod o hyd i'r hyn y maent yn chwilio amdano yn rhwydd.

**Cwcis ymarferoldeb Defnyddir y rhain i'ch adnabod pan fyddwch yn dychwelyd i'n safle.** Mae hyn yn ein galluogi i bersonoli ein cynnwys i chi, eich cyfarch yn ôl eich enw a chofio'ch dewisiadau (er enghraifft, eich dewis iaith neu ranbarth).

Rydych yn atal cwci trwy'r gosodiad ar eich porwr sy'n caniatáu i chi wrthod gosod pob cwci neu rai cwci. Fodd bynnag, os ydych yn defnyddio gosodiadau eich porwr i rwystro pob cwci (gan gynnwys cwci hanfodol) efallai na fyddwch yn gallu cael mynediad i'n holl safle neu rannau ohono.

Am fwy o wybodaeth am gwci, gan gynnwys sut i newid gosodiadau eich porwr a dod o hyd i a dileu cwci ar eich gyriant caled, ewch i [www.aboutcookies.org](http://www.aboutcookies.org).

I optio allan o gael eich olrhain gan Google Analytics ar draws pob gwefan, ewch i <https://tools.google.com/dlpage/gaoptout>.

## **5. DATGELU EICH GWYBODAETH**

Efallai y byddwn yn rhannu eich data personol ag unrhyw aelod o'n grŵp, sy'n golygu ein his-gwmnïau, ein cwmni daliannol a'i is-gwmnïau, fel y'u diffinnir yn adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau'r DU 2006.

Gallwn drosglwyddo neu rannu eich data personol gyda thrydydd partïon sy'n prosesu eich data personol mewn gwlad y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) byddwn yn gwneud hynny dim ond os:

- Mae gennym gytundeb trosglwyddo data gyda'r trydydd parti sy'n cynnwys y cymalau diogelu data safonol fel sy'n ofynnol gan y Deddfau Diogelu Data;
- Mae'r wlad berthnasol yn destun penderfyniad digonolrwydd cyfredol; a/neu
- Mae'r trydydd parti wedi'i leoli yn yr Unol Daleithiau ac mae ganddo darian preifatrwydd ddilys (oherwydd gellir disodli neu newid y darian preifatrwydd o bryd i'w gilydd).

Efallai y byddwn yn rhannu eich data personol gyda thrydydd partïon dethol (ar sail Perfformiad Contract neu Fuddiant Dilys, oni bai bod y data personol yn sensitif neu'n perthyn i gategori arbennig, ac felly ar sail lechyd y Cyhoedd) gan gynnwys:

- Partneriaid busnes, cyflenwyr ac isgcontractwyr ar gyfer cyflawni unrhyw gcontract yr ydym yn ei wneud gyda nhw neu chi, gan gynnwys cymdeithasau tai, cynghorau, landlordiaid ac unrhyw drydydd partïon eraill y credwn y gallent eich helpu i ddod o hyd i gyfleoedd tai.
- Darparwyr dadansoddiadau a pheiriannau chwilio sy'n ein helpu i wella ac optimeiddio ein gwefan.

Efallai y byddwn yn datgelu eich gwybodaeth bersonol i drydydd partïon:

- Ar gyfer ein Buddiannau Dilys, os byddwn yn gwerthu neu'n prynu unrhyw fusnes neu asedau, gallwn ddatgelu eich data personol i ddarpar werthwr neu brynwr busnes neu asedau o'r fath.
- Ar gyfer ein Buddiannau Dilys, os yw Housing Partners Limited neu ei holl asedau yn cael eu caffael gan drydydd parti, bydd data personol a ddelir ganddo am ei gwsmeriaid yn un o'r asedau a drosglwyddir.
- Naill ai ar gyfer ein Buddiannau Cyfreithlon neu os yw'r rhannu'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol yr ydym yn ddarostyngedig iddi:
  - os oes dyletswydd arnom i ddatgelu (gan gynnwys, heb gyfyngiad, i awdurdodau lleol, yr heddlu neu gyrrff statudol eraill) neu rannu eich data personol;
  - er mwyn gorfodi neu gymhwyso ein telerau defnydd neu delerau ac amodau cyflenwi a chytundebau eraill;
  - diogelu hawliau, eiddo, neu ddiogelwch ni, ein cwsmeriaid, neu eraill;
  - at ddibenion diogelu twyll a lleihau risg credyd.

## **6. YMHLE A SUT YR YDYM YN STORIO EICH DATA PERSONOL**

Yn anffodus, nid yw trosglwyddo gwybodaeth drwy'r rhyngwyd yn gwbl ddiogel. Er y byddwn yn gwneud ein gorau i ddiogelu eich data personol, ni allwn warantu diogelwch eich data a drosglwyddir i'n safle; mae unrhyw drosglwyddiad ar eich risg eich hun. Unwaith y byddwn wedi derbyn eich gwybodaeth, byddwn yn defnyddio gweithdrefnau llym a nodweddion diogelwch i geisio atal mynediad heb awdurdod, gan gynnwys y rhai a nodir isod.

- Mae ein gweithdrefnau diogelwch yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â storio, mynediad a datgelu eich data personol. Os ydych chi'n aelod cofrestredig o'n gwasanaethau, bydd eich hunaniaeth yn cael ei chadarnhau trwy gyfeirio at wybodaeth unigryw fel enw defnyddiwr a chyfrinair. Bydd yr enw defnyddiwr a'r cyfrinair yn eich galluogi i ddefnyddio'r gwasanaethau. Eich cyfrifoldeb chi yw cadw eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair yn gyfrinachol.
- Mae'r holl ddata personol a roddwch i ni yn cael ei storio ar ein gweinyddion diogel ac rydym yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau, ac yn mynnu bod pob trydydd parti y datgelir eich data personol iddynt, yn trin eich gwybodaeth bersonol yn gwbl gyfrinachol ac yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf. Byddwn ond yn cadw eich data personol cyn hired ag sydd ei angen er mwyn i Housing Partners brosesu eich data personol at y dibenion a'r buddiannau dilys a nodir uchod.

## **7. EICH HAWLIAU**

Mae gennych nifer o hawliau sy'n ymwneud â'ch data personol yn unol â'r Deddfau Diogelu Data gan gynnwys:

- Yr hawl i gywiro neu ddileu eich data personol;
- Yr hawl i gyfyngu ar neu wrthwynebu prosesu eich data personol;
- Yr hawl i drosglwyddo eich data personol;
- Yr hawl i ofyn am gopiâu priodol (a all gynnwys golygiadau) unrhyw gymalau trosglwyddo data neu fecanweithiau ardystio sy'n caniatáu trosglwyddo eich data personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd;
- Lle rydym yn dibynnu ar eich caniatâd i brosesu eich data personol, yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg;
- Yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y DU neu awdurdod goruchwyllo cymwys arall;
- Yr hawl i ofyn am gopi o'ch data personol.

Gall ein gwefan, o bryd i'w gilydd, gynnwys dolenni i ac o wefannau ein rhwydweithiau partner, hysbysebwyrr a chysylltiadau. Os dilynwch ddolen i unrhyw un o'r gwefannau hyn, sylwch fod gan y gwefannau hyn eu polisiau preifatrwydd eu hunain ac nad ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd am y polisiau hyn. Gwiriwch y polisiau hyn cyn i chi gyflwyno unrhyw ddata personol i'r gwefannau hyn.

## **8. NEWIDIADAU I'N POLISI PREIFATRWYDD**

Bydd unrhyw newidiadau y byddwn yn eu gwneud i'n polisi preifatrwydd yn y dyfodol yn cael eu postio ar y dudalen hon a, lle bo'n briodol, byddwn yn rhoi gwybod i chi drwy e-bost. Cadwch olwg ar y dudalen hon i weld unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau i'n polisi preifatrwydd.

## **9. CYSYLLTU**

Rydym yn croesawu cwestiynau, sylwadau a cheisiadau am y polisi preifatrwydd hwn a dylid eu cyfeirio at: Y Swyddog Diogelu Data, Housing Partners Limited, Whittington Hall, Whittington Road, Caerwrangon, Swydd Gaerwrangon, WR5 2ZX.